# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-13-2005):

### Dyddiad y Cyfarfod: 10 Mai 2005

### Amser y Cyfarfod: 9:30 a.m.

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Glyn Davies (Cadeirydd) | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Laura Jones | Dwyrain De Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Sandy Mewies | Delyn |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| Enw | Teitl y Swydd |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl y Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Leanne Osbourn | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Christine Gwyther

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-12-2005

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mai 2005.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r ymwelwyr o Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth y Cynulliad a mynegi ei obaith y byddai'r cyfarfod yn ddiddorol ac yn fuddiol iddyn nhw.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 LC1081 - Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2005

Awgrymodd y Cynghorydd Cyfreithiol newid y paragraff olaf ond un yn yr adroddiad draft er mwyn cynnwys yr esboniad a oedd erbyn hyn wedi dod i law oddi wrth y cyfreithiwr a oedd wedi drafftio'r Rheoliadau: "…Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at y rhestr o Fesurau Trosiannol Cymunedol y cyfeirir ati yn Rheoliadau TSE (Cymru). Er hynny, nid ydynt yn cynnwys rhestr lawn o'r mesurau sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 a allai fod wedi'i chynnwys. Y rheswm am hyn yw bod y Rheoliadau hyn yn diweddaru'r diffiniad o Fesurau Trosiannol Cymunedol dim ond i'r graddau y mae'n ymwneud â diffinio neu orfodi Deunydd Risg Penodedig...". Cytunodd yr Aelodau â'r awgrym, ar yr amod bod y fersiwn diwygiedig o'r adroddiad yn cael ei gylchredeg iddyn nhw er gwybodaeth ar ôl iddo gael ei egluro. Camau i'w cymryd: Y Cynghorydd Cyfreithiol/Y Clerc

4.2 LC1082 - Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2005

Sylwodd y Cadeirydd fod yr Adroddiad Drafft ar y Rheoliadau hyn yn dweud ei bod yn drueni nad achubwyd ar y cyfle, wrth ddrafftio'r Offeryn Statudol, i osgoi defnyddio iaith ryw-benodol drwy ddefnyddio "that person" yn hytrach na "he" yn y mewnosodiadau, fel a wnaed yn achos y rheoliadau diwygio cyfatebol a wnaed ar gyfer yr Alban.

O gofio bod y Cynulliad Cenedlaethol yn mynnu defnyddio iaith sy'n niwtral o ran rhyw pryd bynnag y bo modd ac ymrwymiad yr Aelodau i'r achos, awgrymwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog perthnasol i roi gwybod iddo am safbwynt y Pwyllgor ar y mater yma ac i ofyn iddo esbonio pam y cafodd iaith ryw-benodol ei defnyddio y tro hwn. Camau i'w cymryd: Y Cadeirydd/Y Clerc/Y Cynghorydd Cyfreithiol. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiad gael ei wneud ar ffurf y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.3 O ran yr Offerynnau Statudol canlynol, cytunodd yr Aelodau y dylai'r adroddiadau gael eu gwneud ar ffurf y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1080 - Rheoliadau Cynhyrchu Colagen Buchol y Bwriedir i Bobl ei Fwyta yn y Deyrnas Unedig (Cymru) 2005

LC1083 - Rheoliadau Cyflasynnau Mwg (Cymru) 2005

LC1084 - Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2005

LC1085 - Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005

LC1086 - Rheoliadau Trefniadau Asesu y Cwricwlwm Cenedlaethol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2005

## Camau i'w cymryd

4.1 LC1081 - Rheoliadau TSE (Cymru) (Diwygio) 2005

Gofynnwyd i'r Clerc gylchredeg yr adroddiad diwygiedig ar y Rheoliadau uchod i'r Aelodau.

4.2 LC1082 - Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2005

Gofynnwyd i'r Cadeirydd ysgrifennu llythyr at y Gweinidog ynghylch defnyddio iaith ryw-benodol.

## Eitem 5: Defnyddio Iaith Ryw-benodol

5.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod y cyfarfod ar 15 Mawrth wedi penderfynu y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu llythyr ar Brif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, i dynnu ei sylw at yr angen i roi'r gorau i ddefnyddio iaith ryw-benodol wrth ddrafftio offerynnau statudol. Dywedodd fod ateb y Prif Weinidog wedi'i gylchredeg bellach i'r Aelodau ynghyd â'r papur arfaethedig i'r Pwyllgor Busnes ynghylch diwygio Rheol Sefydlog 11 er mwyn cryfhau safbwynt y Rheol Sefydlog ar ddefnyddio iaith ryw-benodol a deddfwriaeth sydd heb gael ei gwneud yn ddwyieithog. Rhoes yr Aelodau eu cefnogaeth

unfrydol i’r cynnig.

5.2 Cynghorodd y Cynghorydd Cyfreithiol yr Aelodau i siarad â Rheolwyr Busnes eu pleidiau i ofyn iddyn nhw gefnogi’r cynnig pan fyddai’n cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Busnes o dan Reol Sefydlog 37. Cytunodd yr Aelodau.

## Eitem 6: Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

6.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 17 Mai 2005.